


# Agor tiroedd ysgol ar gyfer chwarae

Pecyn cymorth ar gyfer ysgolion a phartneriaid

www.chwarae.cymru

ISBN: 978-1-914361-23-4

© Chwarae Cymru

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o’r cyhoeddiad hwn, ar wahân i’r adnoddau, na’i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na’i drosglwyddo mewn unrhyw ddull gan unrhyw berson heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

Cyhoeddwyd gan Chwarae Cymru, Tŷ Parc, Heol y Brodyr Llwydion, Caerdydd, CF10 3AF.

www.chwarae.cymru

Elusen cofrestredig, rhif 1068926

Mawrth 2025

# Cynnwys


Am y pecyn cymorth hwn 4

**Rhan 1: Cyflwyniad a chefndir 5**

- Chwarae 5
- Defnyddio tiroedd ysgol 5
- Deddfwriaethau, polisïau a mentrau 6
- Canfyddiadau o brosiectau peilot 6
- Sicrhau caniatâd ar gyfer chwarae 7
- Darparu lle i chwarae 7
- Creu amser ar gyfer chwarae 7
- Creu'r amodau ar gyfer chwarae 7

**Rhan 2: Cwestiynau cyffredin 8**

**Rhan 3: Adnoddau defnyddiol 12**

- Siart cynllunio prosiect 12
- Templed – Cynllunio prosiect chwarae: pethau i'w hystyried 14
- Dadansoddiad opsiynau 16
- Templed – Polisi chwarae ysgol 21
- Templed – Cynllun chwarae y tu allan i oriau ysgol 22
- Awgrymiadau anhygoel – Cyfathrebu gyda rhieni 24
- Templed – Llythyr i rieni ar gyfer sesiwn i'r teulu 25
- Templed – Cytundeb cymunedol 26
- Templed – Polisi rheoli risg 28
- Templed – Asesiad risg-budd 30
- Sesiwn gwybodaeth i rieni 31
- Sdwff i chwarae: teganau, gemau ac offer 32
- Gemau hawdd i'w chwarae gyda grŵp o blant 33
- Ffurflen monitro sesiwn chwarae y tu allan i oriau ysgol 35

Rhestr ddarllen 36

Cyfeiriadau 37

Diolchiadau 38

# Am y pecyn cymorth hwn

## Ar gyfer pwy mae hwn?

Mae'r pecyn cymorth *Agor tiroedd ysgol ar gyfer chwarae* wedi ei ddylunio i gynorthwyo penaethiaid, llywodraethwyr a mudiadau lleol i weithio gyda'i gilydd i ystyried sicrhau bod tiroedd ysgol ar gael i blant lleol chwarae y tu allan i oriau ysgol.

## Pam ddatblygwyd y pecyn?

Mae'r pecyn hwn wedi ei ddatblygu i gefnogi ysgolion i gynnig cyfleoedd i blant chwarae yn yr ysgol y tu allan i oriau ysgol. Mae'n anelu i ddileu rhai pryderon a chynnig man cychwyn. Bwriedir iddo gefnogi gweithrediad canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch y defnydd o diroedd ysgol gan y gymuned.

Pwrpas y pecyn cymorth yw sicrhau newid ar ddwy lefel:

- defnydd ymarferol o hawl plant i chwarae ar lefel ysgol a chymdogaeth
- gwell ymwybyddiaeth o'r hawl i chwarae ar lefel teuluol.



## Sut ddatblygwyd y pecyn?

Mae hwn yn fersiwn diwygiedig, wedi ei ddiweddaru o becynnau cymorth blaenorol a gynhyrchwyd gan Chwarae Cymru i gefnogi'r defnydd o diroedd ysgol ar gyfer chwarae.

Mae ariannu gan Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm wedi galluogi Chwarae Cymru i ffurfio partneriaethau gyda thimau datblygu chwarae awdurdodau lleol, timau ysgolion bro ac ysgolion i ddatblygu'r fersiwn newydd hon o'r pecyn cymorth.

Er mwyn adolygu a diweddaru'r pecyn cymorth, sefydlodd Chwarae Cymru grŵp ffocws ymgynghorol o benaethiaid, swyddogion ysgolion bro a swyddogion datblygu chwarae. Helpodd y grŵp hwn i ymchwilio i brosiect wnaeth beilota amrywiol adnoddau a thempledi. Yn ystod y broses ddrafftio fe wnaethom ddefnyddio eu cwestiynau, eu hymatebion a'u profiadau i fynd i'r afael â'r prif faterion llosg sy'n gysylltiedig gydag agor tiroedd ysgol i blant chwarae.

## Defnyddio'r pecyn cymorth

Mae'r pecyn cymorth wedi ei rannu'n dair rhan:

1. **Cyflwyniad a chefndir** – mae'r adran hon yn cyflwyno gwybodaeth am bwysigrwydd chwarae. Mae hefyd yn cynnwys manylion am bolisi Llywodraeth Cymru a pholisi rhyngwladol sy'n cefnogi'r defnydd o diroedd ysgol ar gyfer chwarae.
2. **Cwestiynau cyffredin** – mae'r adran hon yn cynnig rhestr o gwestiynau ac atebion sy'n helpu i ateb pryderon cyffredin.
3. **Adnoddau defnyddiol** – mae'r adran hon yn cynnwys casgliad o ddulliau i gynorthwyo gyda darparu tiroedd ysgol ar gyfer chwarae.

# Rhan 1: Cyflwyniad a chefndir

**Mae pob plentyn angen chwarae. Mae'r pecyn cymorth hwn yn darparu gwybodaeth ynghylch polisi ac ymarfer er mwyn helpu cymunedau ysgolion i fabwysiadu agwedd a ffocws cymunedol i gefnogi hawl plant i chwarae.**

## Chwarae

Mae gan blant hawl i chwarae, fel y cydnabyddir yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Chwarae yw un o agweddau mwyaf uniongyrchol a phwysicaf bywydau plant – maent yn gwerthfawrogi cael amser, mannau o safon a rhyddid i chwarae[1]. Pan ofynnir beth sy'n bwysig iddyn nhw, bydd plant yn sôn yn gyson am chwarae a chwrdd â'u ffrindiau[2].

Fel arwydd o'r pwysigrwydd y mae'r Cenhedloedd Unedig yn ei osod ar chwarae plant, fe gyhoeddodd Sylw Cyffredinol rhif 17 ar Erthygl 31. Mae'r ddogfen hon yn dynodi bod chwarae'n cynnwys nodweddion allweddol hwyl, ansicrwydd, her, hyblygrwydd a bod yn anghynhyrchiol.

Mae chwarae'n golygu bod plant yn gwneud fel y mynnant yn eu hamser eu hunain ac yn eu ffordd eu hunain. Mae chwarae'n ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant. Pan maent yn chwarae, bydd plant yn cyfrannu at eu lles uniongyrchol ac at eu datblygiad eu hunain.

Ceir cronfa hirsefydlog o dystiolaeth gadarn sy'n dangos y cyfraniad y gall chwarae, ac yn enwedig chwarae a drefnir yn bersonol, ei wneud i les uniongyrchol a thymor hir plant, i'w iechyd corfforol ac i'w iechyd meddwl a'u gwytnwch. Mae amrywiol astudiaethau[3] wedi dod i'r casgliad bod:

- **chwarae'n cefnogi cymdeithasoli:** pan maent yn chwarae, bydd plant yn rhyngweithio gydag eraill, gan ddatblygu cyfeillgarwch ac ymlyniadau gyda chyfoedion, yn delio gyda gwrthdaro, ac yn dysgu parch a goddefgarwch.
- **chwarae'n cynyddu gwytnwch:** mae chwarae'n rhoi hwb i allu plant i reoleiddio emosiwn, i'w hyder, creadigedd, sgiliau datrys problemau a dyfalbarhad, gan eu galluogi i ymdopi gyda straen a heriau trwy gydol eu bywydau.
- **chwarae'n hanfodol ar gyfer iechyd a lles da:** mae bod yn fywiog trwy chwarae'n helpu plant yn gorfforol ac yn emosiynol, gan gyfrannu at eu hiechyd a'u hapusrwydd.
- **chwarae'n cefnogi plant i deimlo'n rhan o'u cymdogaethau a'u cymunedau ehangach:** mae chwarae'n caniatáu i blant ddysgu am y byd o'u hamgylch, creu cysylltiadau, a datblygu ymdeimlad o hunaniaeth ac o berthyn.
- **chwarae'n cefnogi dysg a datblygiad:** gan adeiladu strwythurau'r ymennydd a sgiliau fel meddwl beirniadol.

## Defnyddio tiroedd ysgol

Mae plant ac arddegwyr angen ac mae ganddynt hawl i gael mannau o safon ac amser i chwarae fel rhan o'u bywydau bob dydd yn eu cymuned eu hunain. Fel y tanlinellwyd yn y Canllawiau i Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru, yn aml iawn mae tiroedd ysgol yn cynrychioli'r ased awyr agored unigol fwyaf mewn nifer o gymunedau. Mae gan agor tiroedd ysgol ar gyfer chwarae rôl sylweddol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r angen brys i sicrhau y gall mwy o blant gael mynediad i chwarae y tu allan.

Trwy Gymru gyfan mae tiroedd nifer o ysgolion yn cynnig adnodd sylweddol ar gyfer chwarae plant.

Mewn llawer o ardaloedd, yn drefol a gwledig, mae tiroedd ysgol yn cynnig gofod niwtral yn y gymuned leol. Gall cael mynediad i ofod o'r fath gyfoethogi'r cyfleoedd sydd gan bob adran o'r gymuned o amgylch yr ysgol ar gyfer chwarae a hamdden yn yr awyr agored.

## Deddfwriaethau, polisïau a mentrau

Yn 2010, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i ddeddfwriaethu dros chwarae gyda Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Mae hwn yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal. Fel rhan o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae (ADCh) statudol, mae rhaid i awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru asesu chwarae mewn polisïau addysg ac ysgolion.

Mae'r canllaw statudol – *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae* – yn nodi bod ysgolion yn darparu cyfle pwysig i blant chwarae'n ystod y diwrnod ysgol, yn ogystal â chyn ac ar ôl gwersi. Cewch hyd i fwy o wybodaeth am ddigonolrwydd chwarae ar ein gwefan.

Fel y nodwyd yn y canllaw ar gyfer rhaglen Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru, mae gan agor tiroedd ysgol ar gyfer chwarae rôl bwysig wrth fynd i'r afael â'r angen i sicrhau y gall mwy o blant gael mynediad i chwarae y tu allan. Mae'n cydnabod, i lawer o gymunedau, mai'r gofod gorau i chwarae yw tiroedd yr ysgol, ac y byddai mwy o fynediad y tu allan i oriau ysgol yn cefnogi'r plant a'r teuluoedd hynny.

Fel y nodwyd yn *Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae* Llywodraeth Cymru, mae ysgolion yn wynebu nifer o gyfyngiadau y bydd rhaid eu goresgyn os caiff cyfleusterau ysgolion eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau heblaw am y brif swyddogaeth o addysgu disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- arweinyddion ysgol a llywodraethwyr yn mynegi nifer o bryderon, yn cynnwys materion yn ymwneud ag yswiriant, diogelwch a goruchwyliaeth
- trafferthion posibl gyda'r cyfleusterau a'u patrwm
- gall agor y cyfleusterau y tu allan i oriau ysgol achosi costau cynnal a chadw a gweithrediadol ychwanegol.

Fodd bynnag, mae'r buddiannau posibl o ran:

- ymgysylltiad a lles cymunedol
- effeithiau cadarnhaol ar iechyd a hapusrwydd plant ac arddegwyr
- cyfoethogi'r ymdeimlad lleol o gymuned

yn golygu ei fod yn werth chweil.

## Canfyddiadau o brosiectau peilot

Un o ganfyddiadau allweddol prosiectau peilot a ddefnyddiodd diroedd ysgol ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau ysgol oedd bod yr holl staff a gyfwelwyd yn sylweddoli bod llawer o'u hofnau yn ddi-sail. O ganlyniad, roeddent yn hapus i rannu rheolaeth o'r gofod, a thrwy hynny'n meithrin cysylltiadau cymunedol a defnydd mwy ymddiriedus a democrataidd o'r gofod[4].

Mae'r canfyddiadau allweddol o'r gwahanol brosiectau peilot yn cynnwys y canlynol:

- roedd yr ysgolion a gymerodd ran yn gefnogol, ond fe wnaethant elwa o'r gefnogaeth y gallai staff ei gynnig ar y dechrau
- roedd rhieni'n gwerthfawrogi cael amser, lle a chaniatâd i gefnogi chwarae eu plant
- roedd rhieni'n gwerthfawrogi hefyd y rhwydweithio anffurfiol gyda'u cymheiriaid a gweithwyr proffesiynol cefnogol.

Mae buddiannau agor tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'n cynnwys:

- mynediad i gyfleusterau a chyfleoedd ychwanegol
- gwell argaeledd cyfleoedd chwarae'n lleol
- gwell cyfleoedd i blant chwarae'r tu allan i oriau ysgol
- gwella cydweithio gydag asiantaethau eraill i hybu gwell cyfleusterau cymunedol.

Roedd y prosiectau peilot yn anelu i arddangos y gallai gofodau chwarae ysgolion gael eu hymgorffori ym mywyd ehangach y gymuned. Roedd y prosiectau'n amrywio o ran model ond, yn y bôn, roedd yr ysgolion a gymerodd ran yn cynnig mynediad i diroedd ysgol ar gyfer plant iau a'u teuluoedd. Caniataodd ychydig o ysgolion i'r sesiynau fod yn agored i unrhyw blant oedd yn mynychu'r ysgol a'u brodyr a'u chwiorydd. Fe wnaeth yr ysgolion hyn amodi bod rhaid i blant dan wyth oed gael eu hebrwng gan oedolyn.

## Creu'r amodau ar gyfer chwarae

Mae cyfleoedd plant i chwarae ym mhob lleoliad – yn cynnwys ysgolion – yn dibynnu ar ystod eang o faterion, sydd wedi'u trefnu ar draws tair thema:

- **Caniatâd:** ofn, disgwyliadau, goddefgarwch, a'r modd y mae oedolion yn ystyried plentyndod a chwarae
- **Lle:** cyfanswm, dyluniad a rheolaeth gofodau
- **Amser:** y modd y caiff amser ei strwythuro a'r oblygiadau sydd ar amser plant.

## Sicrhau caniatâd ar gyfer chwarae

Fe wnaethom siarad gyda'r plant oedd yn rhan o'r peilot ac mae eu neges yn glir. Maen nhw eisiau chwarae, ac maen nhw am i'w rhieni a'u gofalwyr sylweddoli bod y cyfyngiadau a osodir ar eu hamser a'u lle i chwarae'n eu hatal rhag chwarae.

Mae rhieni ac aelodau'r gymuned yn gofyn am ac yn chwilio am opsiynau rhad i gefnogi eu plant i gael mynediad i gyfleoedd i chwarae. Fe wnaeth y prosiect peilot ddarparu'r wybodaeth a'r hyder i rieni gefnogi eu plant i chwarae yn eu cymunedau. Mae rhieni ac aelodau eraill o'r gymuned wedi tyfu'n eiriolwyr dros chwarae a phlentyndod.

'Dywedodd un o'r rhieni ei bod yn teimlo'n fwy diogel yn yr ysgol nag mewn parc oherwydd ei fod bron yn ofod caniataol felly mae'n teimlo ei fod yn ddiogel, ac y gall hithau ymlacio.'
**Athro, ar ôl y prosiect peilot**

## Darparu lle i chwarae

Mae plant yn dweud wrthym eu bod am chwarae mwy y tu allan, gyda'u ffrindiau. Mae rhieni'n chwilio am fannau chwarae gwell ar gyfer eu plant. Mae rhai ysgolion yn teimlo nad oes gan y tiroedd fawr ddim i'w gynnig i ddisgyblion os nad oes offer chwarae sefydlog yno. Fodd bynnag, mae rhoi amser, lle a chaniatâd i chwarae'n cefnogi disgyblion i wneud y gorau o'r amgylchedd. Bydd gan y rhan fwyaf o ysgolion iard wedi ei tharmacio, fydd yn cefnogi gemau a chwaraeon rhedeg egnïol, er y dylid ystyried disgyblion sydd am gymdeithasu neu fyfyrio ar eu pen eu hunain. Mae gofod naturiol a gwyrdd sydd wedi ei thirlunio'n dda yn darparu nodweddion cadarnhaol amlwg ar gyfer chwarae, fel mannau i guddio ac archwilio.

'Mae'r syniad o fod o fudd i'r gymuned trwy agor ein gatiau a defnyddio'r cae hyfryd sydd gennym … Rwy'n gweld hynny fel un ffordd y gallwn dalu'n ôl i'n cymuned ac i'r plant …'
**Athro, ysgol beilot**

## Creu amser ar gyfer chwarae

Mae amser rhydd plant yn mynd yn llai a llai ac mae cyfleoedd ar gyfer chwarae y tu allan yn gostwng. Mae llawer o blant yn cael eu rhwystro rhag cael y budd mwyaf o chwarae oherwydd rhwystrau amgylcheddol a diwylliannol – yn enwedig y rheini sy'n anabl ac wedi eu gwthio i'r cyrion. Mae cael amser i chwarae gyda ffrindiau yn syth ar ôl ysgol yn caniatáu i'r plant ymlacio ac yn cyfrannu at eu hwyl, yn ogystal ag at eu hiechyd a'u lles.

Yn ystod y prosiect peilot, roedd yn amlwg bod rhieni yn cael budd o'r sesiynau hefyd, a hynny'n bennaf yn seibiant, cymdeithasu, siarad gyda phobl eraill am chwarae a rhannu pryderon ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn lleol. Fe wnaethom arsylwi bod rhieni, yn enwedig rhieni gyda theuluoedd mwy o faint o blant ifanc, yn gwerthfawrogi cael amser i ymgysylltu gyda rhieni eraill tra roedd y plant yn chwarae gyda'u brodyr a'u chwiorydd a phlant eraill. Roedd cael cyfle i arsylwi eu plant yn cael lle i chwarae y tu allan i oriau ysgol, a lle i ymgasglu a chymdeithasu gyda'u ffrindiau ar eu telerau eu hunain yn bwerus i ambell riant:

'Mae wedi bod yn bositif. Fe wnes i fwynhau sut oedd y plant yn chwarae. Roeddwn i'n pryderu os oeddwn i eisiau chwarae gyda nhw neu beidio, felly ar brydiau roedd rhaid imi atal fy hun yn gwbl ymwybodol rhag ymuno yn y chwarae. Roedd hi'n dda gweld y plant yn cyd-chwarae ac yn bod yn greadigol a llawn dychymyg.'
**Rhiant, ar ôl y prosiect peilot**

# Rhan 2: Cwestiynau cyffredin

**Rydym yn cydnabod bod pob ysgol yn wahanol a'i bod mewn sefyllfa ddelfrydol i fod yn sensitif i anghenion ei chymuned benodol ei hun. Gan ddefnyddio gwybodaeth o'n amrywiol brosiectau peilot, yma rydym yn delio gyda rhai o'r heriau a'r pryderon cyffredin sy'n gysylltiedig â defnyddio tiroedd ysgol ar gyfer chwarae cymunedol. Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg o ddatrysiadau posibl.**

## Beth am y risg o ddifrod?

Os yw fandaliaeth yn broblem eisoes, rhaid nodi bod achosion fandaliaeth y tu allan i oriau addysgu'n aml yn ganlyniad i broblem y tu allan i ffiniau'r ysgol. Felly, mae fandaliaeth yn fater cymunedol sy'n galw am ddatrysiad cymunedol. Yn aml, gellir priodoli gwir achos fandaliaeth cymunedol i ddarpariaeth wael ar gyfer plant hŷn ac arddegwyr yn yr ardal leol.

Mae mater fandaliaeth yn fwy o risg i rai ysgolion nag eraill, ond i bob ysgol bydd gwahaniaeth rhwng amddiffyn adeiladau'r ysgol rhag cael eu camddefnyddio a'u difrodi'n bwrpasol, a gwarchod tiroedd yr ysgol yn gyffredinol.

Bydd agor tiroedd ysgol ar gyfer chwarae'n cynyddu'n syth bresenoldeb pobl yn yr ardal. Bydd cymunedau'n gwerthfawrogi'r gofod os yw'n darparu lle iddyn nhw ac mae pawb yn gwybod bod presenoldeb pobl yn rhwystro fandaliaeth.

Gall agor tiroedd ysgol olygu bod cymunedau lleol yn teimlo'n fwy cysylltiedig â'r ysgol un ai trwy drefniadau anffurfiol neu trwy gytundebau cymunedol ffurfiol. Mae'n dilyn wedyn, y gellir lleihau'r risg posibl o bobl o'r tu allan i'r gymuned yn achosi trafferthion. Gall caniatáu mynediad cyfyngedig i diroedd ysgol fod yn ateb. Gellir cyflawni hyn trwy agor rhan o diroedd yr ysgol i ganiatáu mynediad i'r cyhoedd

'Mewn gwirionedd, mae caniatáu mynediad i'r gymuned i diroedd yr ysgol wedi ychwanegu at ddiogelwch i ni.'
**Dirprwy Bennaeth, prosiect peilot**



## Pwy fydd yn goruchwylio'r plant a'n safle?

Er mai staff sy'n gyfrifol am oruchwylio plant ac arddegwyr yn ystod y diwrnod ysgol – yn ystod amser chwarae, amser egwyl ac amser cinio, a phan maent mewn gweithgareddau a chlybiau ar ôl ysgol wedi eu goruchwylio – nid yw hyn yn wir o reidrwydd ar adegau eraill ei defnyddio. Mae rhai ysgolion wedi enwebu aelod o staff i fod yn berson cyswllt ar gyfer sesiynau chwarae y tu allan i oriau ysgol. Mae'r rhain wedi cynnwys athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu (fel rhan o'u cynnig ar ôl ysgol), swyddogion cyswllt â theuluoedd a swyddogion ymgysylltu a gofalwyr ysgolion.

Mewn achosion ble mae cymunedau wedi eu cefnogi i ddefnyddio'r tiroedd yn annibynnol, eglurir heb flewyn ar dafod i'r plant a'r rhieni nad yw'r ddarpariaeth yn cael ei goruchwylio a bod asesiad risg-budd wedi dynodi a gwaredu unrhyw beryglon. Yn yr achos hwn, gellir ehangu polisïau yswiriant sy'n bodoli eisoes

i gwmpasu defnydd heb ei oruchwylio. Dyma sut fydd awdurdodau lleol yn derbyn yswiriant ar gyfer meysydd chwarae cyhoeddus heb eu staffio.

Gall trefniadau partneriaeth gydag adrannau eraill o'r awdurdod lleol a/neu fudiadau sector gwirfoddol ddarparu cymorth arbenigol ac weithiau staffio ar gyfer y sesiynau chwarae. Mae gan y gwasanaeth chwarae mewn rhai cynghorau lleol, a llawer o fudiadau sector gwirfoddol lleol, dimau o weithwyr chwarae fydd yn ymweld â gwahanol safleoedd yn ystod gwyliau'r ysgol ac yn gynnar fin nos yn ystod y tymor. Weithiau, byddant yn hwyluso sesiynau chwarae ar diroedd ysgol i hybu defnydd ehangach. Efallai y bydd cael staff ar y safle am gyfnod penodol yn helpu eich ysgol i sefydlu ei defnydd o diroedd yr ysgol ac yn helpu i leddfu pryderon rhieni a'r gymuned.

## Beth os yw'r plant neu eu rhieni angen defnyddio'r toiledau?

Mae llawer o ardaloedd chwarae lleol, meysydd chwarae a mannau agored cyhoeddus eraill ble mae plant yn chwarae, sydd heb doiledau. Gan y bydd llawer o'r plant sy'n defnyddio tiroedd yr ysgol yn byw yn lleol, byddant yn gallu dewis i fynd adref os oes gwir angen. Gall gwybodaeth ar gyfer plant a rhieni ynghylch defnyddio tiroedd ysgol egluro'r sefyllfa doiledau'n gwbl blaen.

## Beth am iechyd a diogelwch?

Mae datganiad lefel uchel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), *Chwarae a Hamdden Plant – hyrwyddo agwedd gytbwys,* yn hybu agwedd gytbwys tuag at reoli risg mewn chwarae plant. Mae rheoli risg mewn darpariaeth chwarae – yn cynnwys mewn ysgolion – yn golygu taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau mewn modd strategol ac ymarferol. Felly, mae'n bwysig bod â fframwaith polisi clir sy'n:

- egluro'r ddarpariaeth chwarae
- hysbysu'r agwedd tuag at risg a diogelwch
- sail ar gyfer y rhesymau am benderfyniadau.

Bydd polisi sy'n egluro'n gwbl glir yr angen i gynnig cyfleoedd chwarae yn helpu arweinyddion ysgol i gynnig gwasanaeth sy'n ateb anghenion chwarae plant lleol. Mae templedi ar gyfer polisi ac asesiad rheoli risg wedi'u cynnwys yn ardan Adnoddau defnyddiol y pecyn cymorth hwn.

Pan mae gan ysgolion yr offer cywir, sydd wedi ei osod yn gywir, ei gynnal a'i gadw a'i archwilio'n rheolaidd, gyda'r polisïau a'r gweithdrefnau cywir yn eu lle, felly bydd y gofod yn ddiogel, cyn belled â sy'n rhesymol ymarferol, ar gyfer y rheini sy'n defnyddio'r tiroedd y tu allan i oriau ysgol. Dyma mae'r gyfraith yn ei fynnu.

Mae'n bwysig cadw'r risgiau cysylltiedig mewn persbectif. Rydym yn wynebu pob mathau o risgiau trwy'r amser ac rydym yn lleihau'r tebygolrwydd o anaf trwy sicrhau bod mesurau rheoli digonol yn eu lle – yn aml trwy weld gwybodaeth, cyfarwyddiadau a goruchwyliaeth addas yn cael eu darparu gan staff a gwirfoddolwyr sydd wedi eu hyfforddi'n dda.

Mae llawer o blant ac arddegwyr yn chwilio am brofiadau anturus a chyffrous pan maent yn chwarae. Gall caniatáu mynediad i diroedd ysgolion lleol y tu allan i oriau ysgol, o bosibl, gyfrannu at gadw plant yn ddiogel. Gall darparu cyfleusterau helpu i leihau damweiniau'n gyffredinol trwy gynnig profiadau mewn amgylcheddau wedi'u rheoli'n dda sy'n ddiogel rhag traffig a pheryglon difrifol eraill.

## Ac ymgyfreitha?

Nid oes deddfwriaeth benodol ar ddiogelwch chwarae, ond mae ystyriaethau cyfreithlon y mae ysgolion yn glynu atynt eisoes:

- **Dyletswydd gofal:** mae gan ysgolion gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau diogelwch plant ar eu tiroedd. Mae hyn yn cynnwys darparu amgylchedd diogel, goruchwyliaeth ddigonol, ac asesiadau risg ar gyfer gweithgareddau.
- **Deddf Atebolrwydd Meddianwyr:** mae'r ddeddf hon yn mynnu y dylai ysgolion gymryd camau rhesymol i sicrhau diogelwch y bobl hynny sydd ar y safle, yn cynnwys plant ar yr iard chwarae ac mewn mannau eraill y tu allan.
- **Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith:** mae'r ddeddf hon yn sicrhau amgylchedd diogel ar gyfer cyflogeion, yn ogystal â phlant mewn ysgolion. Mae rhaid i ysgolion gynnal a chadw offer ac arwynebau iardiau chwarae er mwyn atal damweiniau.
- **Esgeuluster:** os caiff plentyn ei anafu o ganlyniad i fethiant ysgol i gyflawni'r rhwymedigaethau cyfreithiol hyn, gallai'r ysgol gael ei dwyn i gyfraith am esgeuluster.

Mae rhai elfennau allai arwain at ymgyfreitha, megis:

- offer peryglus, sydd wedi ei ddifrodi neu sydd heb ei gynnal a'i gadw'n ddigonol
- arwynebau neu rwystrau anniogel
- goruchwyliaeth annigonol
- diffyg asesu risg.

Er mwyn osgoi ymgyfreitha, dylai ysgolion:

- archwilio a chynnal a chadw offer maes chwarae'n rheolaidd
- asesu'r lefel o oruchwyliaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer y ddarpariaeth a gynigir
- cynnal aessiadau risg trylwyr ar gyfer gweithgareddau a gynhelir yn y gofod
- sichrau bod unrhyw amgylchedd yn ddiogel ac yn rhydd o unrhyw beryglon
- cydymffurfio gyda phob deddf a rheoliad lleol perthnasol.

Mae chwarae yn peri risgiau i blant ac oedolion, trwy ddamweiniau ac anafiadau, a hefyd i ddarparwyr trwy'r risg atebolrwydd. Fodd bynnag, mae tiroedd ysgolion yn fannau cymharol ddiogel, ac wedi bod ers blynyddoedd os nad ddegawdau lawer. Mae yswirwyr a rheolwyr risg awdurdodau lleol yn adrodd bod hawliadau o ganlyniad i anafiadau ar fannau chwarae yn cynrychioli cyfran fechan iawn o'u llwyth gwaith, ac nid oes unrhyw dystiolaeth o gynnydd dramatig mewn niferoedd yn y blynyddoedd diwethaf. Dylai'r patrwm hwn barhau os caiff tiroedd ysgolion eu gwneud yn fwy hygyrch i blant y tu allan i oriau ysgol.

'Pan oeddem yn datblygu'r safle at ddefnydd gan y gymuned y tu allan i oriau addysgu, roedd rhai'n pryderu y byddai datblygu'r gofod yn cynyddu'r potensial am hawliadau a chynyddu atebolrwydd. Fodd bynnag, fe wnaeth un o'n llywodraethwyr ein hatgoffa ei bod hi'n dal yn wir bod hyn wastad wedi bod yn bosibl ac o ganlyniad i'r diffyg cynnal a chadw ar y safle cyn y datblygiad roedd yr ysgol, o bosibl, yn wynebu mwy o risg o hawliadau. Yn gryno, fe wnaethom sylweddoli bod materion atebolrwydd a hawliadau posibl yr un fath, waeth os yw'r gofod yn agored neu wedi ei gloi.'
**Pennaeth, prosiect peilot**



Bydd gennych asesiad risg ar gyfer tir a safle eich ysgol eisoes allai fod yn sail ar gyfer ehangu'r defnydd o diroedd yr ysgol. Mae'n bwysig nodi nad yw'r mwyafrif o ddamweiniau maes chwarae'n arwain at ymgyfreitha.

## Beth am yswiriant?

Mae yswiriant yn chwarae rhan bwysig gan ei fod yn darparu rhwyd arbed ariannol os digwydd damwain neu golled arall. Fodd bynnag, ni fwriedir i yswiriant atal damweiniau neu golledion. Dylid trafod asesu risg-budd gydag yswirwyr, er mwyn sicrhau arddull gytûn ac i gynorthwyo ysgolion yn ogystal ag yswirwyr i ddeall yr hyn mae'r ysgol yn ei gynnig.

Caiff y mwyafrif o ysgolion eu hyswirio trwy'r awdurdod lleol trwy gynllun yswirio grŵp. Ble mae ysgolion yn llwyddo i agor eu tiroedd ar gyfer chwarae, mae yswiriant penodol wedi ei drefnu i ganiatáu defnydd cymunedol y tu allan i oriau ysgol.

### Ni ellir defnyddio ein hoffer chwarae ar hyn o bryd neu 'does dim offer gennym. Ble fydd y plant yn chwarae?

Mae rhai ysgolion yn teimlo nad oes gan diroedd yr ysgol fawr ddim i'w gynnig i blant ac arddegwyr os nad oes offer chwarae sefydlog. Fodd bynnag, o gael amser, lle a chaniatâd i chwarae bydd y plant yn gwneud y gorau o'r amgylchedd. Mae gofod naturiol, glaswelltog wedi ei dirlunio'n dda yn darparu nodweddion cadarnhaol amlwg ar gyfer chwarae. Fodd bynnag, gall ardal wastad wedi ei tharmacio ddarparu gofod da, sy'n rhydd o beryglon, ble gall plant ac arddegwyr fynd ar feiciau a sgwteri.

Cewch hyd i restr enghreifftiol o offer a phethau i'w hystyried yn yr Adnoddau defnyddiol. Mae'r mannau chwarae gorau yn cynnwys amrywiaeth o rannau rhydd a bydd plant yn rhydd i chwarae gyda nhw fel y mynnant. Mae rhannau rhydd yn ddeunyddiau heb unrhyw restr o gyfarwyddiadau penodol y gellir eu defnyddio ar eu pen eu hunain neu eu cyfuno gyda deunyddiau eraill ac y gellir, o'r herwydd, eu defnyddio mewn unrhyw fodd y mae'r plentyn yn dewis a gellir eu haddasu a'u trin a'u trafod mewn nifer o ffyrdd. Gall rhannau rhydd fod yn naturiol neu'n synthetig.

Mae rhannu rhydd yn ddeunyddiau y gellir eu symud, eu cario, eu cyfuno, a'u hail-ddylunio, eu gosod mewn rhes, a'u tynnu'n ddarnau a'u rhoi'n ôl at ei gilydd mewn llu o ffyrdd, er enghraifft: papur, cerrig, brigau, dŵr, tywod, dail, plu, offer adeiladu, hoelion, bocsys, ffabrig, rhaffau, pren, potiau, planhigion, metel, clai, mwd, byrddau, cadeiriau, blancedi, unrhyw beth a phopeth y gellir ei symud neu eu trin a'u trafod fel rhan o'r chwarae.

### Amgylchedd chwarae cyfoethog a gwerth chwarae

Bydd plant yn chwarae ble bynnag maen nhw ac yma mhob math o leoedd, ond mae rhai mannau wedi eu creu gyda'r bwriad penodol o gefnogi chwarae plant. Nid yw offer chwarae arbenigol yn angenrheidiol o reidrwydd. Mae mannau naturiol fel coed, traethau, gerddi cymunedol ac afonydd yn cefnogi chwarae plant hefyd. Bydd dŵr, coed a llwyni yn newid gyda'r tymhorau a gall plant eu defnyddio mewn amrywiol ffyrdd, gan gael llawer allan o chwarae gyda'r hyn sydd yno'n naturiol. Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn amrywiol a diddorol. Mae'n le ble gall plant:

- chwarae yn eu ffordd eu hunain
- gwneud ystod eang o ddewisiadau
- cael nifer o bosibiliadau i greu a datblygu eu chwarae eu hunain.

Yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*, mae Llywodraeth Cymru yn datgan:

> 'Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn un hyblyg a diddorol, y gellir ei addasu a'i amrywio. Mae'n manteisio i'r eithaf ar y cyfle i gymdeithasu, i fod yn greadigol a dyfeisgar, ymateb i heriau a gwneud dewisiadau. Mae'n fan cyhoeddus yr ymddiriedir ynddo lle mae plant yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain, yn eu hamser eu hunain, ar eu telerau eu hunain.'

Mae'r term gwerth chwarae'n disgrifio ystod ac ansawdd y cyfleoedd chwarae a'r profiadau a gynigir gan amgylchedd chwarae. Fe'i defnyddir hefyd i ddisgrifio y gwerth y mae gofod, neu ddarn o offer, yn ei gynnig i blant i'w helpu i ehangu eu chwarae.

Mae gofod sy'n gyfoeth o werth chwarae yn creu cyfleoedd ar gyfer amrywiol brofiadau chwarae corfforol, cymdeithasol a synhwyraidd. Mae'n cynnig cyfle i bob plentyn ryngweithio'n rhydd gyda neu brofi'r canlynol:

- plant eraill
- y byd naturiol
- rhannau rhydd
- y pedair elfen
- her ac ansicrwydd
- newid hunaniaeth
- symud
- chwarae gwyllt
- y synhwyrau.

Mae'r adran hon yn cynnwys casgliad o adnoddau defnyddiol i gefnogi ysgolion i wneud tiroedd ysgol ar gael i blant chwarae y tu allan i oriau ysgol.

## Siart cynllunio prosiect

**Mae'r siart hon yn nodi'r camau i'w cymryd er mwyn cyflwyno cyfleoedd i chwarae sy'n defnyddio tiroedd yr ysgol y tu allan i oriau ysgol.**

| Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 |
|---|---|---|
| **Dethol y model i'w ddefnyddio**<br>• Gweler y Dadansoddiad opsiynau ar gyfer modelau argymelledig<br><br>**Ymgysylltu â'r corff llywodraethu**<br><br>**Ymgysylltu â'r staff i gyd**<br>• Offeryn archwilio man chwarae (gweler tudalen 21 *Ysgol chwarae-gyfeillgar*)<br>• Asesiad risg-budd<br><br>**Dynodi aelod allweddol o'r tîm staff**<br><br>**Datblygu polisi chwarae'r ysgol**<br><br>**Dynodi partneriaid posibl ac asiantaethau**<br>• Er enghraifft grwpiau trigolion, Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon, darparwyr chwarae a grwpiau cymunedol lleol i drafod sut allant gyfranogi | **Ymgysylltu â'r plant**<br>• Ymgynghori gyda'r cyngor ysgol<br>• Gweler y Rhestr ddarllen ar gyfer dolenni i adnoddau fel<br>    • *Gweithdy hawl i chwarae*<br>    • *Ysgol chwarae-gyfeillgar*<br><br>**Ymgysylltu â'r rhieni**<br>• Cyfarfod gyda grŵp cyfeillion neu rieni<br>• Gwybodaeth i rieni'n amlinellu'r prosiect<br>• Gweler y Templed llythyr i rieni am sesiynau i'r teulu<br>• Gweler y Sesiwn gwybodaeth i rieni<br><br>**Ymgysylltu â'r gymuned**<br><br>**Tiroedd yr ysgol i fod ar agor ar gyfer chwarae ar amserau a drefnwyd gan yr ysgol a'i phartneriaid**<br>• Sdwff i chwarae: teganau, gemau ac offer<br>• Gemau hawdd i'w chwarae gyda grŵp o blant | **Dadansoddi gyda'r partneriaid i gyd i ddynodi sut aeth y prosiect.**<br>• Beth oedd y buddiannau a'r heriau?<br>• Defnyddiwch gwestiynau fel:<br>    • Ydych chi'n credu ei bod hi'n bwysig i hwyluso'r cyfle hwn i chwarae? Pam?<br>    • Beth oedd buddiannau caniatáu i'r plant ddefnyddio tiroedd yr ysgol y tu allan i oriau ysgol?<br>    • Pa fuddiannau penodol o chwarae plant ydych chi'n meddwl wnaeth caniatáu defnyddio'r tiroedd eu cyflawni?<br>    • A oedd unrhyw heriau i ganiatáu i'r plant ddefnyddio tiroedd yr ysgol y tu allan i oriau ysgol?<br>    • Sut aethoch chi i'r afael â'r heriau hyn?<br>    • Beth sydd angen newid er mwyn gwneud i bethau weithio?<br><br>**Gweithio gyda'r partneriaid i gyd i ddynodi sut ellir cynnal y cyfleoedd i chwarae** |

| Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 |
| --- | --- | --- |
| **Materion i'w harchwilio:**<br>• Pwysigrwydd chwarae<br>• Buddiannau a heriau<br>• Cloi'r gatiau<br>• Taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau<br>• Goruchwyliaeth<br>• Cyd-destun cyfreithiol, ymgyfreitha ac yswiriant<br>• Toiledau<br>• Offer chwarae<br>• Canfyddiad rhieni a thrigolion lleol | **Parhau i ymgysylltu â chymuned yr ysgol**<br>• Athrawon, gofalwyr, llywodraethwyr, plant a rhieni<br><br>**Materion i'w harchwilio**<br>• Pwysigrwydd chwarae<br>• Buddiannau a heriau<br>• Cloi'r gatiau<br>• Taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau<br>• Goruchwyliaeth<br>• Cyd-destun cyfreithiol, ymgyfreitha ac yswiriant<br>• Toiledau<br>• Offer chwarae<br>• Canfyddiad rhieni a thrigolion lleol | |

## Rhywfaint o gefndir

Fel y nodir yn y canllaw ar gyfer rhaglen Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru, yn aml iawn tiroedd ysgol yw'r gofod awyr agored unigol mwyaf o ran maint mewn aml i gymuned. Mae'n nodi bod gan agor tiroedd ysgol ar gyfer chwarae rôl bwysig wrth fynd i'r afael â'r angen i sicrhau y gall mwy o blant gael mynediad i chwarae'r tu allan. Mae'r canllaw yn cydnabod, i lawer o gymunedau, mai'r gofod gorau ar gyfer chwarae yw tiroedd yr ysgol, ac y byddai mwy o fynediad y tu allan i oriau ysgol yn cefnogi'r plant a'r teuluoedd hynny.

Bwriedir i sesiynau chwarae tu allan i oriau ysgol fod yn rhad ac am ddim ac yn agored i unrhyw blentyn sy'n mynychu'r ysgol, yn ogystal â'u brodyr a'u chwiorydd.

Roedd y prosiectau peilot oedd yn rhan o adolygiad y pecyn cymorth yn anelu i arddangos y gallai gofodau chwarae ysgolion gael eu corffori'n fwy cyffredinol ym mywyd y gymuned. Roedd y prosiectau'n amrywio o ran model, ond yn y bôn, roedd yr ysgolion a gymerodd ran yn cynnig mynediad i diroedd ysgol ar gyfer plant iau a'u teuluoedd. Caniataodd ambell ysgol i'r sesiynau fod yn agored i bob plentyn oedd yn mynychu'r ysgol, yn ogystal â'u brodyr a'u chwiorydd. Fe wnaeth yr ysgolion hyn nodi bod rhaid i blant dan wyth oed gael eu hebrwng gan oedolyn.

## Gwybodaeth y gwnaeth ysgolion ei rannu gyda rhieni

### Yr hyn sydd angen i rieni a gofalwyr ei wybod

- Nid yw hwn yn wasanaeth gofal plant
- Mae'r plant yn dal i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni tra eu bod ar diroedd yr ysgol
- Bydd y plant yn cael y rhyddid i ddewis a'r cyfle i chwarae gyda'u ffrindiau
- Mae hwn yn sesiwn chwarae awyr agored – ni fydd yr ysgol ar agor.

### Pam ein bod yn cefnogi hyn

- Mae chwarae'n bwysig i ac ar gyfer plant.
- Rydym am ddarparu gofod ar gyfer chwarae sydd wedi ei leoli yn y gymdogaeth ac yn agos i ble mae'r disgyblion yn byw.
- Rydym yn gobeithio y gallwn ehangu'r prosiect hwn.

Dyma rai o ganfyddiadau allweddol y peilot:

- Roedd yr ysgolion gymerodd ran yn gefnogol, ond fe wnaethant elwa o'r gefnogaeth gynigodd y staff ar y dechrau.
- Roedd y rhieni yn gwerthfawrogi cael amser, lle a chaniatâd i gefnogi chwarae eu plant.
- Roedd y rhieni hefyd yn gwerthfawrogi'r rhwydweithio anffurfiol gyda chymheiriaid a gweithwyr proffesiynol cefnogol.



## Pethau i'w hystyried

| | |
|---|---|
| Pa gyfleusterau/gofodau eraill ar gyfer chwarae rhydd sydd ar gael yn y gymdogaeth | |
| Pa ofodau eraill sydd ar gael i chwarae? | |
| Yw hi'n ddiogel i blant deithio'n annibynnol i'r ysgol? | |
| Pa raglen gweithgareddau ar ôl ysgol gaiff ei chynnig ar hyn o bryd? | |
| Pa adnoddau sydd ar gael ar gyfer prosiect chwarae? | |
| Pa adnoddau sydd eu hangen ar gyfer prosiect chwarae? | |
| A oes gan yr ysgol aelod o staff enwebedig i fod yn berson cyswllt? | |
| A oes unrhyw bryderon am ofodau penodol ar diroedd yr ysgol? | |

**Defnyddiwch y wybodaeth uchod i ystyried opsiynau ar gyfer agor y tiroedd ar gyfer chwarae'r tu allan i oriau ysgol. Cofiwch ystyried – y gofod sydd i fod ar gael, oedrannau, cyfranogiad rhieni, dyddiadau ac amserau ar gyfer y sesiynau.**

## Dadansoddiad opsiynau

**Gall defnyddio dadansoddiad opsiynau helpu ysgolion i bennu'r model a'r agwedd orau ar gyfer agor tiroedd ysgol ar gyfer chwarae. Gellir rhestru'r manteision a'r anfanteision – gan sgorio 1 pwynt ar gyfer pob mantais a -1 ar gyfer pob anfantais. Nodwyd ambell enghraifft i'w hystyried.**

| Opsiwn 1: Caniatáu i'r gofod gael ei ddefnyddio gan blant o bob oed gyda goruchwyliaeth a ddarperir gan y staff neu sefydliad partner | | | |
|---|---|---|---|
| Materion i'w hystyried | Manteision (+1) | Anfanteision (-1) | Cyfanswm |
| Pa gyfleusterau/mannau eraill sydd ar gael ar gyfer chwarae rhydd yn y gymuned? | | | |
| Pa adnoddau sydd eu hangen? | | | |
| Sawl diwrnod yr wythnos allwch chi ddarparu hyn? | | | |
| Pa amserau y cynhelir y sesiynau? | | | |
| Yw hi'n ddiogel i'r plant deithio'n annibynnol i'r ysgol? | | | |
| Beth yw barn aelodau'r gymuned? | | | |
| Beth yw'r effaith ar berthnasau cymunedol? | | | |
| Naratif: | | | |

| Opsiwn 2: Caniatáu i’r gofod gael ei ddefnyddio gan blant o bob oed heb oruchwyliaeth (tan amser penodol) | | | |
|---|---|---|---|
| **Materion i’w hystyried** | **Manteision (+1)** | **Anfanteision (-1)** | **Cyfanswm** |
| **Beth yw’r rhaglen gweithgareddau ar ôl ysgol sy’n cael ei chynnig ar hyn o bryd?** | | | |
| **Sawl diwrnod allwch chi ddarparu hyn?** | | | |
| **Pa amserau y cynhelir y sesiynau?** | | | |
| **Pa adnoddau sydd eu hangen?** | | | |
| **Pa fannau eraill sydd ar gael i chwarae?** | | | |
| **Beth yw barn y gymuned?** | | | |
| **Beth yw’r effaith ar berthnasau cymunedol?** | | | |
| **Naratif:** | | | |

| Opsiwn 3: Caniatáu i'r gofod gael ei ddefnyddio gan blant iau (dan oed ysgol, blynyddoedd cynnar a chyfnod allweddol 1) a'u teuluoedd yn unig | | | |
|---|---|---|---|
| **Materion i'w hystyried** | **Manteision (+1)** | **Anfanteision (-1)** | **Cyfanswm** |
| **Beth yw'r rhaglen gweithgareddau ar ôl ysgol sy'n cael ei chynnig ar hyn o bryd?** | | | |
| **Sawl diwrnod allwch chi ddarparu hyn?** | | | |
| **Pa amserau y cynhelir y sesiynau?** | | | |
| **Pa adnoddau sydd eu hangen?** | | | |
| **Pa fannau eraill sydd ar gael i chwarae?** | | | |
| **Beth yw barn y gymuned?** | | | |
| **Beth yw'r effaith ar berthnasau cymunedol?** | | | |
| **Naratif:** | | | |

| Opsiwn 4: Cynnig mynediad cyfyngedig i diroedd yr ysgol trwy gytundeb cymunedol | | | |
|---|---|---|---|
| **Materion i'w hystyried** | **Manteision (+1)** | **Anfanteision (-1)** | **Cyfanswm** |
| **Pa grwpiau cymunedol sy'n bodoli allai gefnogi'r fenter hon?** | | | |
| **Pa sgiliau sydd ar gael yn lleol?** | | | |
| **Pa adnoddau sydd eu hangen?** | | | |
| **Pa fannau eraill sydd ar gael i chwarae?** | | | |
| **Ar ba ddyddiau ac amserau ellid cynnal y sesiynau?** | | | |
| **Beth yw'r effaith ar staff yr ysgol?** | | | |
| **Beth yw barn y gymuned?** | | | |
| **Beth yw'r effaith ar berthnasau cymunedol?** | | | |
| **Naratif:** | | | |

| Opsiwn 5: Gwneud dim | | | |
|---|---|---|---|
| **Materion i'w hystyried** | **Manteision (+1)** | **Anfanteision (-1)** | **Cyfanswm** |
| **Pa adnoddau sydd eu hangen?** | | | |
| **Pa fannau eraill sydd ar gael i chwarae?** | | | |
| **Beth yw barn y gymuned?** | | | |
| **Beth yw'r effaith ar berthnasau cymunedol?** | | | |
| **Naratif:** | | | |
| **Beth fydd yr effaith os wnawn ni ddim byd?** | | | |

| Penderfyniad a chynllun gweithredu – disgrifiwch eich penderfyniad a'r camau i'w rhoi ar waith |
|---|
| |

# Templed – Polisi chwarae ysgol

**Bydd mabwysiadu polisi chwarae ysgol yn gwneud cyfraniad sylweddol i ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog ar gyfer plant. Mae polisi chwarae ysgol yn datgan y gwerth y bydd yr ysgol yn ei osod ar chwarae plant a'i bod yn ymrwymo i gefnogi cyfleoedd chwarae plant. Gellir rhannu'r polisi gyda'r plant, y staff a'r rhieni a'i gynnwys ym mhrosbectws yr ysgol.**

## Polisi chwarae ysgol

Mae'r ysgol hon yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pob plentyn sy'n mynychu'r ysgol yn cael digon o amser a mannau da i chwarae'n rhydd fel rhan o'u diwrnod.

I blant, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywydau. Mae chwarae'n cyfrannu at iechyd, lles a hapusrwydd plant yn ogystal ag at eu dysg a'u gallu i ddysgu. Bydd rhai plant ond yn cael cyfle i chwarae gyda'u ffrindiau yn yr ysgol.

Gallwn wneud cyfraniad cadarnhaol i fywydau plant trwy werthfawrogi eu hysfa a'u hawydd i chwarae a thrwy ddarparu ystod eang o gyfleoedd chwarae ar diroedd yr ysgol cyn, yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol.

Mae'r ysgol hon yn cydnabod y bydd plant yn mynd ati'n naturiol i greu a chwilio am sefyllfaoedd heriol. Tra'n gwneud y mwyaf o'u chwarae, mae'n bosibl y bydd rhai plant yn cael damweiniau, yn gwlychu neu'n baeddu, neu'n cael eu siomi. Rydym yn sylweddoli y bydd angen i unrhyw risg o niwed posibl i blant gael ei gydbwyso â'r potensial am les allai ddod yn sgîl cymryd rhan mewn math penodol o chwarae. Byddwn yn gwneud ein gorau i atal plant rhag dioddef niwed corfforol neu emosiynol difrifol trwy reoli'r cyfleoedd chwarae y byddwn yn eu darparu'n ofalus.

Mae'r ysgol hon yn credu y bydd agwedd oedolion tuag at ymddygiad chwarae plant, a'u dealltwriaeth ohono, yn cael effaith sylweddol ar ansawdd y cyfleoedd chwarae gaiff eu cynnig y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Felly, bydd yr ysgol hon yn chwilio am gyfleoedd hyfforddi ac yn cefnogi'r staff i ymchwilio, fel bod y tîm yn hyderus i hwyluso chwarae y bydd y plant yn ei ddewis o wirfodd ac yn ei gyfarwyddo'n bersonol.

# Templed – Cynllun chwarae y tu allan i oriau ysgol

**Mae'r cynllun hwn wedi ei ddylunio i helpu ysgolion i gofnodi manylion sut y mae'n trefnu a gweithredu prosiect chwarae y tu allan i oriau ysgol, a drefnir ac a ddarperir gan yr ysgol. Dylai'r cynllun hwn fod yn ddogfen ysgrifenedig y gellir ei rhannu gydag a'i deall gan staff, disgyblion a rhieni'r ysgol.**

## Cynllun amser chwarae y tu allan i oriau ysgol

| Gweledigaeth ar gyfer amser chwarae y tu allan i oriau ysgol |
|---|
| Yn (enw'r ysgol) mae amser chwarae yn rhan bwysig o'r diwrnod ysgol. Mae'n bwysig i bob plentyn sy'n mynychu'r ysgol gael digon o amser a mannau da i chwarae'n rhydd fel rhan o'u diwrnod. |
| **Polisïau sy'n hysbysu'r cynllun hwn** |
| • Polisi chwarae'r ysgol<br>• Polisi rheoli risg |
| **Goruchwyliaeth** |
| Caiff y sesiwn ei staffio fel a ganlyn:<br>• Disgrifiwch y strwythur goruchwylio<br>• Rhestrwch a disgrifiwch rolau a chyfrifoldebau pob person. |
| **Amserlen** |
| Yr amserlen amser chwarae yw:<br>• Disgrifiwch y dyddiau a'r amserau ar gyfer pob sesiwn. |
| **Gweithrediad** |
| Y gweithdrefnau ar gyfer gweithredu'r (rhestrwch a disgrifiwch y camau ymarferol ar gyfer y canlynol a materion eraill a ddynodwyd gan yr ysgol)<br>• Paratoi, amserau dechrau a gorffen<br>• Defnyddio a storio offer<br>• Mynediad i doiledau a dŵr<br>• Gofodau awyr agored sydd ar gael (rhestrwch a disgrifiwch y rhain neu gynnwys map)<br>• Arall (rhestrwch a disgrifiwch). |
| **Trefniadau ar gyfer tywydd garw** |
| Mae canllawiau tywydd ar gyfer defnydd o'r tir y tu allan i oriau ysgol wedi eu datblygu gan (nodwch enw'r person neu'r grŵp). Bydd y canllawiau tywydd yn cwmpasu'r sefyllfaoedd canlynol (nodwch fanylion ar gyfer pob sefyllfa):<br>• Amodau tywydd poeth<br>• Amodau tywydd oer<br>• Amodau tywydd eithafol.<br><br>Bydd canllawiau tywydd yn cael eu rhannu gyda staff, disgyblion a rhieni'r ysgol, ac eraill, fel a ganlyn (disgrifiwch sut byddwch yn rhannu'r canllawiau). |

## Diogelwch

Mae'r ysgol yn cydnabod y bydd plant yn mynd ati'n naturiol i greu a/neu chwilio am sefyllfaoedd heriol. Tra'n gwneud y mwyaf o'u chwarae, mae'n bosibl y caiff rhai o'r plant ddamweiniau, faeddu neu wlychu neu gael eu siomi. Rydym yn cydnabod bod angen i unrhyw risg posibl o niwed i blant gael ei gydbwyso gyda'r potensial am les allai godi'n sgîl cymryd rhan mewn math penodol o chwarae.

Cynhelir archwiliadau rheolaidd o'r gofodau a chyfleusterau gan (nodwch enw'r unigolyn neu'r grŵp). Cynhelir yr archwiliad hwn (nodwch pa mor aml, er enghraifft yn ddyddiol neu'n wythnosol).

Bydd yr archwiliadau, yn benodol, yn archwilio (disgrifiwch yr hyn fydd y person neu'r grŵp yn chwilio amdano).

Dylid adrodd am broblemau gyda gofodau a chyfleusterau i (nodwch enw'r person neu'r grŵp).

Defnyddir y broses ganlynol i gywiro problemau a sicrhau bod safonau'n cael eu cadw: (nodwch sut fyddwch yn delio â phroblemau).

## Monitro

Disgrifiwch sut mae'r ysgol yn monitro'r sesiynau chwarae y tu allan i oriau ysgol
Disgrifiwch sut a phwy fydd yn adolygu'r wybodaeth a gesglir
Disgrifiwch sut y mae'n defnyddio'r wybodaeth i addasu'r cynllun amser chwarae y tu allan i oriau ysgol
Disgrifiwch pa wybodaeth a gesglir a sut y caiff ei gasglu.

Cofiwch ystyried:

- Y nifer o ddisgyblion a'u hoedrannau
- Y nifer o staff/partneriaid fydd yn goruchwylio
- Y nifer o rieni
- Y tywydd
- Y mathau o ofodau lle mae'r plant yn chwarae
- Y mathau chwarae a arsylwyd
- Yr adnoddau a ddefnyddiwyd (yr hyn sydd ar gael, sut mae'r disgyblion yn eu defnyddio, a oes digon ohonynt?)
- Digwyddiadau/damweiniau.

Disgrifiwch unrhyw wybodaeth arall sy'n cael ei chasglu, fel ymddygiad talu sylw yn yr ystafell ddosbarth, cyrhaeddiad, a chamau disgyblu.

# Awgrymiadau anhygoel – Cyfathrebu gyda rhieni

**Unwaith bod cymuned yr ysgol wedi penderfynu ar yr opsiwn gorau o ran defnyddio'r tiroedd y tu allan i'r oriau ysgol, mae'n bwysig dynodi'r dull gorau ar gyfer cyfathrebu natur y prosiect i rieni a gofalwyr.**

## Negeseuon allweddol

### Am y prosiect

Disgrifiwch y prosiect:

- Os caiff ei staffio, cofiwch bwysleisio mai rôl y staff fydd cefnogi chwarae a ddewisir o wirfodd a goruchwylio'r plant pan maent ar dir yr ysgol.
- Eglurwch y caiff y sesiynau chwarae eu harwain gan y plant a bod hyn yn golygu y gall y plant ddilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain.
- Cofiwch gynnwys y dyddiadau a'r amser y bydd tir yr ysgol ar agor ynghyd â manylion cyswllt person enwebedig os bydd gan unrhyw un gwestiynau neu ymholiadau.

### Pwy all fynychu

- Pwysleisiwch fod y sesiynau chwarae'n rhad ac am ddim.
- Byddwch yn gwbl glir ynghylch oedrannau neu grwpiau blwyddyn y plant all fynychu heb gael eu hebrwng gan oedolyn. Os caniateir i blant iau fynychu cyn belled â bod oedolyn yn eu hebrwng trwy'r amser, cofiwch nodi hyn hefyd.
- Os yw'r sesiynau chwarae'n agored i blant sy'n byw'n lleol ond sy'n mynychu ysgolion eraill, cofiwch sicrhau fod pawb yn deall bod croeso iddynt hwythau ddefnyddio tir yr ysgol i chwarae.

### Yr hyn sydd angen i rieni a gofalwyr ei wybod

Cofiwch egluro:

- os gall y plant ddod i a gadael tiroedd yr ysgol ar eu pen eu hunain
- nad yw hwn yn wasanaeth gofal plantos caiff y plant eu goruchwylio, neu beidio, tra eu bod ar dir yr ysgol
- bod gan y plant ryddid i ddewis a chyfle i chwarae gyda'u ffrindiau
- os caiff y plant fynediad, neu beidio, i'r toiledau neu rannau eraill o'r ysgol (fel yr ystafell gotiau)
- bod angen i rieni a'r plant gytuno rhyngddynt faterion ymarferol fel sut fydd y plant yn mynd adref.

Os yw'r ysgol yn darparu goruchwyliaeth heb rieni, efallai yr hoffech roi ffurflen gofrestru i'r plant fynd adref. Dylid gofyn i'r rhieni ei chwblhau a'i rhoi i'r plant i'w dychwelyd i'r ysgol. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn helpu i gyflawni anghenion y plant sy'n cyfranogi.

### Pam ein bod yn cefnogi'r prosiect

Defnyddiwch hwn fel cyfle i hyrwyddo pwysigrwydd y prosiect gyda'r rhieni a gofalwyr. Efallai y bydd datganiadau fel y rhain yn helpu:

- Mae chwarae'n bwysig i ac ar gyfer plant.
- Rydym am ddarparu gofod ar gyfer chwarae sydd wedi ei leoli yn y gymdogaeth ac yn agos i ble mae'r plant yn byw.
- Mae tiroedd ein hysgol ar agor eisoes at ddefnydd y gymuned y tu allan i oriau ysgol ac rydym am hyrwyddo hyn yn lleol, ac i'n disgyblion.

# Templed – Llythyr i rieni ar gyfer sesiwn i'r teulu



**Bydd (nodwch enw'r ysgol) yn cymryd rhan mewn prosiect peilot sy'n cynnwys defnyddio tiroedd ein hysgol gan blant i chwarae'r tu allan i oriau ysgol.**

## Y prosiect

Caiff y sesiynau eu harwain gan y plant. Mae hyn yn golygu y gall plant ddilyn eu syniadau a'u diddordebau eu hunain.

Rydym yn gwahodd teuluoedd i aros a defnyddio (noder lleoliad yr ysgol) o (noder yr amser) tan (noder yr amser) ar y dyddiadau canlynol:

- Noder y dyddiadau

## Pwy all fynychu?

Opsiynau awgrymedig:

- Mae'r sesiynau'n rhad ac am ddim ac yn agored i unrhyw deuluoedd sydd â phlant yn y dosbarthiadau meithrin, derbyn, a blynyddoedd 1 a 2. Gall brodyr a chwiorydd iau a hŷn fynychu hefyd gyda'u rhieni.
- Mae'r sesiynau'n rhad ac am ddim ac yn agored i unrhyw blant sy'n mynychu'r ysgol a'u brodyr a'u chwiorydd. Mae'n rhaid i blant dan wyth oed gael eu hebrwng gan oedolyn.
- Mae'r sesiynau'n rhad ac am ddim i blant sy'n mynychu'r ysgol, eu brodyr a'u chwiorydd a phlant eraill sy'n byw'n lleol. Mae'n rhaid i blant dan wyth oed gael eu hebrwng gan oedolyn.

## Yr hyn sydd angen i rieni a gofalwyr ei wybod

- Nid yw hwn yn wasanaeth gofal plant.
- Mae'r plant yn dal i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni tra eu bod ar diroedd yr ysgol.
- Bydd y plant yn cael rhyddid i ddewis a chyfle i chwarae gyda'u ffrindiau.
- Mae hwn yn sesiwn chwarae awyr agored – ni fydd yr ysgol ar agor.

## Pam ein bod yn cefnogi hyn

- Mae chwarae bwysig i ac ar gyfer plant.
- Rydym am ddarparu lle i chwarae sydd wedi ei leoli yn y gymdogaeth ac sy'n agos i ble mae'r disgyblion yn byw.
- Ein gobaith yw y byddwn yn gallu cynnig mwy o gyfleoedd i blant chwarae y tu allan i oriau ysgol.

# Templed – Cytundeb cymunedol

**Wrth ystyried yr opsiynau ar gyfer agor tiroedd ysgol, mae'n debyg y bydd nifer o unigolion a grwpiau'n dod ynghyd i gynllunio'r trefniadau. Mae cytundeb cymunedol yn cynnig ffordd o rannu a deall yr hyn a gynigir, i agor tiroedd ysgol ar gyfer defnydd cymunedol. 'Does dim rhaid i'r cytundeb cymunedol fod yn ddogfen gymhleth. Mae'n bwysig sicrhau ei bod hi'n gwbl eglur beth yw tasg pob plaid neu berson a phwy sy'n derbyn cyfrifoldeb cyffredinol am elfennau allweddol fel yswiriant, cynnal a chadw ac archwiliadau.**

'Rydym wedi llwyddo i agor rhan o diroedd ein hysgol oherwydd inni weithio gyda Rhwydwaith Cymunedol oedd wedi ei sefydlu eisoes. Mae'r grŵp hwn o bobl yn awyddus ac wedi hen arfer derbyn cyfrifoldeb. Mae ganddynt gysylltiadau cymunedol da, ond mae ganddynt hefyd staff cefnogol, sydd wedi helpu i gynnal cysondeb.'
**Pennaeth, prosiect peilot**

## Cytundeb cymunedol

| Cyflwyniad |
|---|
| Nod y prosiect yw gweithio ar y cyd i sicrhau bod tiroedd (enw'r ysgol) yn addas a hygyrch ar gyfer plant ac arddegwyr yn y gymuned i'w defnyddio i chwarae y tu allan i oriau addysgu.<br>(Nodwch enw a chyfeiriad yr ysgol yma) |
| **Pwrpas y cytundeb cymunedol** |
| Pwrpas y cytundeb cymunedol hwn yw diffinio'r dull gweithio a rolau a chyfrifoldebau unigolion sy'n gweithio mewn partneriaeth i oruchwylio, cefnogi a sicrhau cynnal a chadw'r safle, gan gyfrannu at ei gynaladwyedd yn y tymor hir.<br><br>Rôl y bartneriaeth yw cefnogi (enw'r ysgol) i sicrhau bod y safle yn gallu parhau i gefnogi a bod yn effeithlon wrth gyflawni anghenion chwarae'r plant. Trwy gynnal asesiadau risg-budd, caiff unrhyw beryglon diangen eu lleihau trwy gefnogi'r camau angenrheidiol, yn cynnwys cwblhau gwiriadau, atgyweiriadau ac addasiadau amgylcheddol. |
| **Cyfranogwyr sy'n llunio'r cytundeb** |
| Rhestrwch bob enw |
| **Dulliau gweithio** |
| 1. Bydd yr holl gyfranogwyr yn mynychu cyfarfod cychwynnol i gytuno ar gwmpas a manylion y prosiect chwarae y tu allan i oriau ysgol. Eitemau i'w penderfynu:<br>a. Dyddiau, dyddiadau ac amserau'r sesiynau<br>b. Y gofod i'w ddefnyddio<br>c. Oedrannau'r plant/teuluoedd y bydd y prosiect yn gweithredu ar eu cyfer<br>d. Adnoddau angenrheidiol<br>e. Cadarnhad am bwy sy'n gyfrifol am bacio a chadw offer.<br><br>2. (Enw'r ysgol) fydd yn derbyn y cyfrifoldeb pennaf am reoli tiroedd yr ysgol a bydd yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n gywir ac yn addas i gael mynediad iddo i gefnogi anghenion chwarae'r plant. |

3. Bydd (enw'r ysgol) yn darparu gofalwr i sicrhau y cynhelir archwiliad gweledol dyddiol/wythnosol o diroedd yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys gwaredu unrhyw sbwriel diangen ac archwiliad gweledol o unrhyw offer chwarae ar y safle am olion traul. Caiff unrhyw bryderon eu cofnodi'n briodol, ynghyd ac unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol. Bydd hyn yn rhan o unrhyw asesiad risg-budd a wneir.

4. Caiff asesiadau risg-budd eu cwblhau a'u cadw ar ffeil gan (enw'r ysgol) a chaiff camau gweithredu penodol eu rhannu â staff priodol a chyfranogwyr allanol neu grwpiau sy'n cefnogi'r prosiect.

5. Bydd gofyn i bartïon allanol priodol gyfrannu at unrhyw asesiadau risg-budd a gynhelir.

6. Bydd partïon allanol priodol yn cyfrannu at y prosiect trwy sicrhau bod camau gweithredu penodol a ddynodir yn cael eu cyflawni (er enghraifft clirio sbwriel, archwilio offer).

## Rolau a chyfrifoldebau

| **Cyfranogwr** | **Rôl – beth?** | **Cyfrifoldeb** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## Datganiad

Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, yn cytuno i'r trefniadau yn y ddogfen hon.

Arwyddwyd:

Dyddiad:



# Templed – Polisi rheoli risg

**Fel rhan o gyfrifoldebau'n ymwneud ag archwilio a chynnal a chadw'r man chwarae, bydd angen cynnal asesiadau risg-budd gweithredol (ar bapur) yn rheolaidd. Mae'n debyg y bydd hyn yn amod o'ch polisi yswiriant.**

Mae hwn yn dempled o bolisi rheoli risg y gellir ei addasu i ateb anghenion yr ysgol. Mae'r polisi'n amlinellu'r agwedd risg-budd tuag at reoli risg ac mae'n caniatáu cynnwys gweithdrefnau'r ysgol, amlder archwiliadau a rhaglen gynnal a chadw arferol. Mae meddu ar bolisi rheoli risg yn mynd ymhellach na'r gofynion ar gyfer cynnal asesiad risg, gan gynnig fframwaith cadarn i'r modd y bydd ysgolion yn rheoli risgiau dros amser ac yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i ddiweddaru a gwella asesiadau risg ymarferol (ar bapur).

## Polisi rheoli risg

Mae'r polisi hwn wedi ei ddatblygu er mwyn darparu agwedd gydlynol, gyson a chytbwys tuag at reoli risg yn (enw'r ysgol) er mwyn sicrhau gwell eglurder dealltwriaeth ynghylch y mater hwn.

Mae'r polisi'n anelu i herio rhywfaint ar natur ofn risg ein cymdeithas heddiw, all gyfyngu ar brofiadau chwarae plant. Caiff y polisi ei gefnogi gan y datganiad lefel uchel a gyhoeddwyd gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Mae'r datganiad lefel uchel – *Chwarae a Hamdden Plant: hyrwyddo agwedd gytbwys* – yn egluro:

- bod chwarae'n bwysig i les a datblygiad plant
- wrth gynllunio a darparu cyfleoedd chwarae, nad dileu risg yw'r nod, ond yn hytrach bwyso a mesur y risgiau a'r buddiannau
- y dylai'r rheini sy'n darparu cyfleoedd chwarae ganolbwyntio ar reoli gwir risgiau, tra'n sicrhau neu'n cynyddu'r buddiannau – ac nid canolbwyntio ar y gwaith papur
- y bydd damweiniau a chamgymeriadau'n digwydd yn ystod chwarae – ond bod ofn cael eich dwyn i gyfraith a chael eich erlyn bellach y tu hwnt i bob rheswm.

### Systemau rheoli risg

Defnyddir y term rheoli risg yn y polisi hwn i gyfeirio at bob elfen sydd ynghlwm â'r broses o reoli risg allai, ac a ddylai, gynnwys llawer mwy nag asesiadau risg ar bapur yn unig. Ble fo'r holl elfennau hyn yn cael eu cefnogi'n briodol, bydd yn bosibl datblygu systemau rheoli risg mwy cadarn a mwy deallus.

### Darparu ar gyfer risg a her mewn darpariaeth chwarae

Mae (enw'r ysgol) yn cydnabod bod plentyndod yn llawn profiadau newydd fydd, o reidrwydd, yn cynnwys rhyw elfen o risg neu fentro, boed yn gorfforol neu'n emosiynol. Mae plentyndod yn broses barhaus o brofi a methu, gyda'r posibilrwydd o lwyddo, ond yn ogystal â damweiniau anochel. Fyddai plant fyth yn dysgu sut i gerdded, dringo'r grisiau neu fynd ar gefn beic oni bai eu bod ag ysgogiad cryf i ymateb i heriau sy'n cynnwys risg o anafiadau.

Mae gennym ddyletswydd gofal i geisio amddiffyn disgyblion a staff rhag effeithiau niweidiol, hir dymor posibl wynebu niwed corfforol ac emosiynol difrifol ac afresymol. Fodd bynnag, wrth wneud hyn ddylen ni ddim ei anwybyddu, neu ei geisio ar draul, galluogi plant i gyfranogi'n weithredol yn eu datblygiad personol eu hunain o iechyd, lles a gwytnwch, o ganlyniad i gymryd rhan mewn sefyllfaoedd â chanlyniadau ansicr.

## Asesu risg-budd

Caiff penderfyniadau ynghylch yr hyn sy'n rhesymol, a'r dymuniad i blant gyfranogi a chyfrannu, eu llunio gan ddefnyddio agwedd risg-budd. Mae'r broses hon yn cynnwys ystyried y buddiannau posibl a gyflwynir gan gyfle ynghyd ag unrhyw ganlyniadau negyddol posibl, ac yna llunio barn os yw'r posibilrwydd o anaf yn gymesur â'r buddiannau. Hynny yw, a yw'r buddiannau posibl yn cyfiawnhau caniatáu i berygl anaf sefyll?

At ddibenion asesu risg-budd, gall buddiannau fod yn rhai corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu amgylcheddol (ac mae'n debyg y byddant yn gyfuniad o'r rhain i gyd). Gellir dynodi risg anaf trwy ystyried tebygolrwydd gweld anaf posibl yn digwydd ynghyd â difrifoldeb posibl yr anaf hwnnw.

## Camau rheoli rhesymol

Yn ystod y broses risg-budd, mae'n bosibl y bydd angen dynodi camau rheoli er mwyn lleihau'r risg o anafiadau i lefel dderbyniol. Fodd bynnag, bydd y camau rheoli, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael eu gweithredu, yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael. Bydd rhaid cyfiawnhau cost unrhyw gamau rheoli posibl trwy sicrhau eu bod yn gymesur â'r perygl anaf cysylltiedig.

Cyn cyflwyno unrhyw gamau rheoli, dylid ystyried hefyd unrhyw effeithiau negyddol posibl allai godi'n sgîl ymyrryd yn y modd yma. Er enghraifft, mae'n bwysig na chaiff angen plant i ddefnyddio eu hamgylchedd mewn ffyrdd newydd ac annisgwyl eu cyfyngu mewn ymgais i ddarparu amddiffyniad llwyr rhag anafiadau.

Pwyntiau allweddol:

- Mae gwerth cynhenid i blant o brofi ansicrwydd a her bersonol trwy eu chwarae.
- Mae angen i blant deimlo'n rhydd i brofi risg a her o'u dewis eu hunain. Byddant ond yn gallu gwneud hyn os byddwn yn caniatáu i ryw elfen o ansicrwydd aros.
- Mae'r cyfleoedd chwarae y byddwn yn eu creu'n anelu i gefnogi plant i brofi lefelau rhesymol o risg drostynt eu hunain.
- Mae angen taro cydbwysedd rhwng sicrhau lefelau priodol o amddiffyn, a gwarchod lefelau rhesymol o ansicrwydd.
- Rydym yn anelu i reoli risg fel bod, pryd bynnag y bo'n rhesymol bosibl, y risg o anaf y bydd plant yn ei wynebu'n gymesur â'r buddiannau posibl sy'n gysylltiedig â'r sefyllfa.
- Bydd camau rheoli'n rhesymol ac yn realistig, tra'n sicrhau y caiff risgiau diangen eu lleihau.
- Mae rheoli risg yn ymgorffori nifer o wahanol elfennau sy'n gweithio gyda'i gilydd i ffurfio cylchdro parhaus, fydd yn gwella ein hymarfer.
- Mae plant yn gwbl abl i reoli rhywfaint o risg drostynt eu hunain a bydd eu gallu'n datblygu wrth i'w profiad gynyddu.

## Templed – Asesiad risg-budd

**Mae'r enghraifft hon o asesiad risg-budd wedi ei ddylunio i gynnwys asesu risg-budd sy'n seiliedig ar werth, fel y disgrifir yn *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE).**

| | |
|---|---|
| **Ysgol:** | **Dyddiad:** |
| **Cwblhawyd gan:** | **Dyddiad ei adolygu:** |
| **Ardal/disgrifiad:**<br>Adeiladu cuddfan | |

| Buddiannau | Risgiau | Nodweddion lleol perthnasol | Beth ydych chi'n ei wneud eisoes | Pa gamau gweithredu pellach sydd eu hangen | Pwy sydd i weithredu | Gweithredu erbyn pryd | Dyddiad cwblhau'r cam gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pleser a hwyl.<br>Chwarae corfforol a chyfleoedd datrys problemau.<br>Archwilio'r amgylchedd.<br>Adeiladu tîm.<br>Datblygu hunanhyder a lles.<br>Cydsymudiad corfforol.<br>Cyflawni'r canlyniad terfynol.<br>Cynhwysiant cymdeithasol.<br>Ymgysylltu â'r amgylchedd naturiol a'r elfennau naturiol.<br>Potensial ar gyfer ei ymgorffori mewn gemau dychmygus.<br>Cymysgu rhwng gwahanol oedrannau. | Cytiau, crafiadau, cleisiau, o ganlyniad i adeiladu a thrin deunyddiau.<br><br>Cytiau, cleisiau, esgyrn wedi torri o ganlyniad i wrthrychau'n cwympo/chwalu. | Dim ond cyllideb fechan sydd ar gael i gynyddu'r cynnig chwarae yn yr ysgol.<br><br>Cynyddu ar y profiad o chwarae dychmygus yn ystod amser ysgol.<br><br>Tai lleol a ffordd gerllaw er mwyn galw am help. | Darparu deunyddiau ysgafn. | | | | |

# Sesiwn gwybodaeth i rieni

**Nod:** I hyrwyddo’r prosiect chwarae y tu allan i oriau ysgol.

**Canlyniadau:**

- Mae’r rhieni’n teimlo’n fwy abl i gefnogi chwarae
- Mae’r rhieni’n deall eu rôl wrth hwyluso sesiwn chwarae tu allan i oriau ysgol
- Mae’r rhieni’n ennill syniadau chwarae hawdd a rhad.

| Amser | Disgrifiad a gweithgaredd | Gweithgaredd | Adnoddau |
|---|---|---|---|
| 5 munud | Croeso a chyflwyniadau<br>Cyflwyno nod a chanlyniadau’r sesiwn | Trafodaeth | |
| 20 munud | Pam fod chwarae’n dda i blant | Gosodwch ddelweddau o chwarae ar waliau’r ystafell ymlaen llaw<br>Ewch at bob llun yn ei dro a thrafod yr hyn mae’r plant yn ei wneud a beth yw’r buddiannau | Pum delwedd o chwarae yn arddangos creadigedd/ffrindiau/dringo/poitsh/cuddfannau |
| 10 munud | Am y prosiect | Trafodaeth | Nodiadau sy’n disgrifio’r prosiect gaiff ei ddarparu |
| 10 munud | Sdwff ar gyfer chwarae – rhannu syniadau | Darparu ystod eang o offer chwarae a rhannu syniadau ar gyfer chwarae | Pêl, bocs cardbord, cynfasau gwely a ffabrig |
| 10 munud | Sylwadau clo | Carwsel papur<br>• Beth sy’n gyffrous am hyn?<br>• Beth ydych chi’n poeni amdano?<br>• Beth arall fyddwch chi ei angen? | Fflip-bapur a phennau ysgrifennu |

# Sdwff i chwarae: teganau, gemau ac offer



**Un o nodau agor tiroedd yr ysgol ar gyfer chwarae wedi i'r diwrnod ysgol ddod i ben yw galluogi chwarae rhydd wedi ei arwain gan y plant. Ddylech chi ddim bod angen prynu na threfnu unrhyw beth penodol, er ei bod yn ddefnyddiol cael rhywfaint o adnoddau i helpu'r plant i wneud y mwyaf o'u hamser i chwarae.**

Dyma rai pethau i'w hystyried:

- Pa fath o gyfleusterau storio sydd ar gael?
- Beth yw oedrannau'r plant?
- Faint o blant y disgwylir iddynt fynychu?
- Beth yw'r cynlluniau ar gyfer goruchwylio?
- A oes unrhyw faterion hygyrchedd y mae angen inni fod yn ymwybodol ohonynt?
- Pwy sy'n gyfrifol am dacluso ar ddiwedd y sesiwn?

Syniadau posibl am adnoddau pecyn chwarae:

- Parasiwt i alluogi grwpiau mawr o blant i chwarae gyda'i gilydd
- Digonedd o sialc palmant
- Digonedd o adnoddau adeiladu cuddfannau rhad (er enghraifft cynfasau, cortyn ysgafn, pegiau dillad, ffabrig fel organsa)
- Sdwff mwy o faint fel darnau o raff, teiars a tharpolin
- Eitemau chwarae byd bychan (fel ceir a cherbydau tegan, anifeiliaid, dinosoriaid)
- Rhaffau sgipio – mae un rhaff fawr yn annog rhieni i ymuno yn yr hwyl
- Peli chwarae cyffredin (mae'n well gan rai ysgolion beli sbwng a pheli ysgafn)
- Cylchoedd hwla
- Offer addysg gorfforol fel conau a bagiau ffa i annog rasys rhwystrau

**Mae gemau grŵp yn ffordd wych i blant ac arddegwyr wneud ffrindiau newydd. Fe allan nhw helpu plant sydd ddim yn adnabod ei gilydd i deimlo'n gyfforddus. Mae llawer o gemau'n addas ar gyfer plant o wahanol oed a gallu, a gall oedolion chwarae hefyd. Mae gemau grŵp yn wych i chwarae yn yr ysgol, neu'r parc neu mewn digwyddiadau fel picnics neu bartïon.**

## Dyma rai gemau i roi cychwyn ar bethau

### Tic

Mae Tic yn gêm gwrso gaiff ei chwarae dros y byd i gyd.

- Mae un person 'Ymlaen'.
- Bydd y person sydd 'Ymlaen' yn cyfrif i 10 cyn rhedeg ar ôl y chwaraewyr eraill.
- Pan fydd y person sydd 'Ymlaen' yn cyffwrdd rhywun arall, bydd yn gweiddi 'Tic'.
- Yna'r person gafodd ei gyffwrdd sydd 'Ymlaen' a byddan nhw'n dechrau rhedeg ar ôl pawb arall.
- Gall y gêm para cyhyd â bod pawb awydd.

Mae llawer o amrywiadau ar gemau tic i'w cael. Dyma rai enghreifftiau:

- **Tic uchel** – allwch chi ddim cael eich ticio os yw'ch traed oddi ar y llawr, er enghraifft, os byddwch yn sefyll ar wal neu'n hongian ar gangen coeden.
- **Tic hopian** – allwch chi ond hopian, ddim rhedeg.
- **Tic twnnel** – os cewch eich ticio, bydd rhaid ichi sefyll gyda'ch coesau ar led a'ch breichiau allan tan i chwaraewr arall eich rhyddhau trwy gropian rhwng eich coesau.
- **Tic cysgod** – bydd y person sydd 'Ymlaen' yn eich ticio trwy sefyll ar eich cysgod yn hytrach na chyffwrdd ynoch chi.

### Gêm hawdd sy'n helpu plant i ddysgu enwau ei gilydd

- Chwiliwch am rywbeth i'w daflu fel pêl, er enghraifft, pêl, balŵn, tegan meddal, sgarff wedi ei rowlio'n bêl neu lemon.
- Pawb i greu cylch.
- Pasiwch y 'bêl' o amgylch y cylch.
- Gofyn i bob person ddweud eu henw wrth dderbyn y bêl ac yna ei phasio ymlaen i'r person nesaf.
- Unwaith i bawb ddal y bêl o leiaf unwaith, gofyn i'r person sy'n dal y bêl i ddweud enw unrhyw berson yn y cylch a thaflu'r bêl atyn nhw.
- Pan fydd y person yna'n ei dal, bydd yn dewis rhywun arall, galw eu henw a thaflu'r bêl atyn nhw, ac yn y blaen.
- Daliwch ati am ychydig o droeon ac yna ychwanegu eitem arall, y gall rhywun arall ddechrau ei thaflu o amgylch y cylch.
- Ychwanegwch fwy o eitemau bob yn un, tan fod gennych nifer o bethau'n cael eu taflu yn ôl ac ymlaen.

### Dal cynffon y ddraig

- Chwiliwch am ddau sgarff neu ddarn hir o ffabrig i'w defnyddio fel 'cynffonau'.
- Rhannwch bawb yn ddau grŵp.
- Gofynnwch i'r grwpiau greu dwy linell, gyda phob person yn gafael am ganol y person o'u blaen. Mae pob llinell yn 'ddraig' a'r person cyntaf yn y llinell yw pen y ddraig.
- Gwthiwch y sgarff, yn llac, i mewn i linyn gwasg trowsus y person ar ddiwedd y ddwy linell. Dyma'r gynffon.
- Gofynnwch i'r dreigiau wynebu ei gilydd, ond heb sefyll yn rhy agos.
- Bloeddiwch, 'daliwch gynffon y ddraig'.
- Nawr, mae rhaid i'r dreigiau redeg o gwmpas – gyda'r bobl yn y dreigiau'n dal gafael ar ei gilydd – er mwyn i'r person ar y blaen (pen y ddraig) geisio dal cynffon y ddraig arall, ond heb i'w draig nhw chwalu.

## Helfa drysor fechan

Fe allwch chi gynnal helfa drysor yn rhywle fel tir yr ysgol, parc, neu ardd heb unrhyw waith paratoi ymlaen llaw.

- Meddyliwch am syniadau am 'drysorau' (gweler y syniadau isod) a'u hysgrifennu ar ddarnau o bapur – neu ddewis y rhain wrth fynd yn eich blaen.
- Gofyn i'r plant feddwl am syniadau.
- Gofyn i'r plant benderfynu os ydyn nhw am chwilio am y trysor fel unigolion, mewn parau neu fel timau.
- Gwnewch amser i holi am yr holl drysorau y daw'r plant o hyd iddyn nhw.

Syniadau ar gyfer 'trysorau' y gallai'r plant chwilio amdanyn nhw:

- deilen ddisglair
- carreg lefn
- rhywbeth coch
- rhywbeth drewllyd
- rhywbeth sgleiniog
- rhywbeth sy'n eich gwneud yn hapus
- rhywbeth sy'n eich atgoffa o'ch gwyliau.

## Gemau eraill sydd ddim angen offer (neu fawr ddim offer)

- Cuddio
- 'Simon says'
- Osgoi'r bêl
- Canlyn camre Mam-gu
- Faint ydi o'r gloch, Mistar Blaidd?

### Cynghorion ar gyfer chwarae gemau grŵp

- Cofiwch gynnwys pawb
- Gofyn oes gan rywun arall gêm i'w rhannu gyda gweddill y grŵp.

**Os ydych chi'r tu allan, cofiwch:**

- Barchu natur
- Edrych os oes baw cŵn, gwydr wedi torri neu unrhyw beryglon eraill ar y safle
- Penderfynu os oes cyfyngiadau ar ba mor bell y gall y plant grwydro – er enghraifft, ddim pellach na ffens, coeden neu dirnod penodol arall.

**Am fwy o syniadau chwarae, ewch i** wefan *Plentyndod Chwareus*



# Ffurflen monitro sesiwn chwarae y tu allan i oriau ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol:** | **Dyddiad:** |
| **Nifer y plant:** | **Staff sy'n bresennol:** |
| **Amcangyfrif oedrannau:** | |
| **Nifer y rhieni:** | **Y tywydd:** |
| **Chwarae/gweithgareddau a arsylwyd** | |
| | |
| **Myfyrdodau ar y sesiwn (Beth ddigwyddodd? Sut ydych chi'n teimlo amdani? Beth allech chi fod wedi ei wneud yn wahanol?)** | |
| | |
| **Beth weithiodd yn dda?** | |
| | |
| **Beth allai fod wedi bod yn well?** | |
| | |
| **Camau gweithredu dilynol:** | |
| | |

## Rhestr ddarllen

**Yn y llyfrgell adnoddau ar ein gwefan ceir amrywiaeth o adnoddau i gefnogi chwarae yn yr ysgol, er enghraifft:**

### Ysgol chwarae-gyfeillgar – Canllaw ar gyfer agwedd ysgol gyfan

Mae'r canllaw hwn wedi ei ddylunio i gyfoethogi'r gwaith da sy'n cael ei wneud eisoes i ddarparu gwell cyfleoedd chwarae mewn ysgolion. Wedi ei ddatblygu er mwyn ymateb i adroddiad Estyn Iach a hapus – *Effaith yr ysgol ar iechyd a llesiant disgyblion*, sy'n nodi pwysigrwydd amserau chwarae ac egwyl mewn ysgolion, mae'r canllaw yn cynnig casgliad o adnoddau i helpu cymunedau ysgolion fabwysiadu agwedd ysgol gyfan i gefnogi hawl plant i chwarae.




### Gweithdy hawl i chwarae

Wedi ei ddylunio ar gyfer ei hwyluso mewn ysgolion i gynyddu ymwybyddiaeth am yr hawl i chwarae, mae'r pecyn *Gweithdy hawl i chwarae* yn cynnwys cynllun gweithdy, yn ogystal â adnoddau cynorthwyol. Fe'i datblygwyd i gefnogi hyrwyddo, cyfranogiad ac eiriolaeth yr hawl i chwarae yn lleol ac i gefnogi plant i ddod yn eiriolwyr dros chwarae.




### Meddwl am rannau rhydd mewn ysgolion

Mae'r daflen wybodaeth hon yn anelu i ddarparu cyngor i ymarferwyr yn y sector addysg am ddefnyddio deunyddiau chwarae rhannau rhydd. Mae'n edrych ar ddefnyddio chwarae rhannau rhydd yn ystod amser chwarae ac yn yr ystafell ddosbarth ac mae'n cynnig enghreifftiau a chynghorion ar sut y mae defnyddio a darparu rhannau rhydd mewn lleoliad ysgol yn cefnogi dysg dan arweiniad y plentyn. Mae hefyd yn cynnwys atodiad defnyddiol gyda ymchwil ar sut y mae chwarae'n cefnogi dysg, datblygiad, gweithgarwch corfforol, iechyd a lles plant.




## Rhestr ddarllen ar gyfer athrawon

Rhestr ddarllen o adnoddau argymelledig ar gyfer meddwl am chwarae yn yr ysgol. Mae'r rhestr ddarllen yn fan cychwyn ar gyfer myfyrio a Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer y rheini sydd â diddordeb gwella cyfleoedd plant i chwarae yn yr ysgol.




## Adnoddau ar gyfer chwarae – darparu rhannau rhydd i gefnogi chwarae plant

Datblygwyd y pecyn cymorth hwn i gefnogi pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau chwarae, blynyddoedd cynnar ac addysg i ddarparu chwarae rhannau rhydd. Mae'n cynnwys enghreifftiau o leoliadau sy'n defnyddio rhannau rhydd fel rhan o'u darpariaeth chwarae. Mae'r rhain wedi eu casglu o amrywiaeth o leoliadau, yn cynnwys y blynyddoedd cynnar a gofal plant, ysgolion a phrosiectau cymunedol.




## Mae plant hŷn yn chwarae hefyd

Mae'r daflen wybodaeth hon yn archwilio chwarae plant hŷn (yn enwedig plant 11 i 16 oed), a sut i osgoi tybiaethau sy'n seiliedig ar oedran. Mae hefyd yn edrych ar ymddygiadau chwarae plant hŷn, rhwystrau i chwarae a'r canlyniadau cymdeithasol i arddegwyr os ydynt yn teimlo nad oes croeso iddynt ym mannau cyhoeddus eu cymunedau.




## Cyfeiriadau

[1] Dallimore, D. (2023) *Yr hyn y mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru: 2022*, Caerdydd: Chwarae Cymru.

[2] *Yr hyn y mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru: 2022.*

[3] Gweler Russell, W., Barclay, M. a Tawil, B. (2024) *Chwarae a lles – Adolygiad o ymchwil diweddar i chwarae plant, polisi cymdeithasol ac ymarfer, gyda ffocws ar Gymru – Adolygiad llenyddiaeth*, Caerdydd: Chwarae Cymru.

[4] Mannello, M., Connolly, M., Dumitrescu, S., Ellis, C., Haughton, C., Sarwar, S. a Tyrie, J. (2019) Opening the School Gates: facilitating after-school play in school grounds yn Reed, M. a Fleet, A. (gol) *Rethinking Play as Pedagogy*, Llundain: Routledge.



## Diolchiadau

Rydym yn ddiolchgar i’r canlynol am eu cefnogaeth a’u cyfraniadau:

- Cymuned Addysg Gynnar Betws, Achub y Plant Cymru
- Tîm Chwarae Gwybodaeth i Deuluoedd a Gofal Plant Cyngor Sir Gâr
- Tîm Datblygu Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Tîm Ysgolion Bro Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Swyddog Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Arweinydd Ysgolion Bro Cyngor Sir Fynwy
- Arweinydd Datblygu Chwarae Cyngor Sir Fynwy
- Tîm Gwasanaethau Chwarae Cyngor Abertawe.


Mae Erthygl 31 yn bwysig i blant a phobl ifainc
Mae rhaid inni gael lle ac amser ar gyfer chwarae, adloniant ac ymlacio
Mae chwarae'n ein helpu i gadw'n ddiogel, yn iach a hapus
Mae RHAID i Lywodraethau ganfod ffyrdd i gael gwared â phethau sy'n tarfu ar amser i chwarae
Mae rhaid inni gael cyfleoedd i archwilio a deall ein diwylliant ein hunain
Dylem gael ein cynnwys mewn gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol
Mae rhaid i Lywodraethau sicrhau nad yw'r un ohonom yn cael ein gadael allan
Os y bydd Llywodraethau'n cymryd hyn i gyd o ddifrif, bydd ein bywydau'n hapusach ac iachach
ipa
Promoting the Child's right to play
ERTHYGL
31
LES EVANS 2013

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw’r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy’n ymwneud â chwarae.

Elusen cofrestredig, rhif 1068926

© Chwarae Cymru

Mawrth 2025